EICH AMDDIFFYNIAD YN Y LLYSOEDD

eich amddiffyniad yn y llysoedd
canllaw hanfodol

eich amddiffyniad yn y llysoedd canllaw hanfodol

Talu am eich amddiffyniad

A oes raid i mi dalu yn y llys ynadon?

Nac oes os ydych dan 18 neu ar fudd-daliadau penodol*

Fel arall mae'n dibynnu. Bydd eich incwm cartref blynyddol, costau byw ac amgylchiadau teuluol yn cael eu hystyried:

- os oes gennych £12,475 neu lai ar ôl byddwch yn cael cymorth cyfreithiol am ddim
- os oes gennych £22,325 neu fwy ar ôl bydd raid i chi dalu'n breifat

* budd-daliadau yw: cymhorthdal incwm, lwfans ceisio gwaith ar sail incwm, credyd pensiwn gwarantedig y wladwriaeth, lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm

Os yw'n fwy na £12,475 ond yn llai na £22,325 byddwn yn edrych ar eich incwm gwario. Dyma'r arian fydd gennych ar ôl wedi i chi dalu eich prif filiau.

Os bydd gennych:

- £3,398 neu lai y flwyddyn (£283.17 neu lai y mis) byddwch yn cael cymorth cyfreithiol am ddim
- dros £3,398 y flwyddyn (£283.17 y mis) bydd yn rhaid i chi dalu am eich costau cyfreithiol eich hun

A oes yn rhaid i mi dalu yn Llys y Goron?

Oes, os gallwch fforddio talu. Ceir pedwar senario:

1. Ni fydd raid i chi dalu os ydych:

- dan 18
- ar fudd-daliadau penodol*
- os yw eich incwm cartref wedi i chi dalu am eich prif filiau yn £3,398 neu lai y flwyddyn (£283.17 neu lai y mis) a bod gennych lai na £30,000 o gyfalaf

2. Os gallwch fforddio talu o'ch incwm
3. Os gallwch fforddio talu o'ch cyfalaf
4. Os gallwch fforddio talu o'ch incwm a'ch cyfalaf

* budd-daliadau yw: cymhorthdal incwm, lwfans ceisio gwaith ar sail incwm, credyd pensiwn gwarantiedig y wladwriaeth, lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm

Talu o'ch incwm yn Llys y Goron

A fydd raid i mi dalu o'm hincwm?

Na fydd - os cawsoch gymorth cyfreithiol am ddim yn y llys ynadon ac nad yw eich amgylchiadau ariannol wedi newid.

Bydd - os oes gennych chi incwm gwario cartref o £3,398 neu fwy y flwyddyn (283.17 y mis)

Faint fydd yn rhaid i mi ei dalu?

Rhowch eich cais am gymorth cyfreithiol i dwrnai. Gallant eich cynghori os bydd yn rhaid i chi dalu ac amcangyfrif faint fydd y swm

Os yw eich incwm gwario yn fwy na £3,398 y flwyddyn, bydd y swm hwn yn cael ei rannu gyda 12 i roi ffigwr misol

Os yw eich incwm gwario misol yn fwy na £283.17 gofynnir i chi dalu **90%** o hyn bob mis am bum mis. Neu gallwch dalu'r holl swm ymlaen llaw

Os byddwch yn hwyr yn talu, gofynnir i chi wneud un taliad ychwanegol

Er enghraifft
os yw eich incwm gwario blynyddol yn £3,000, eich cyfraniad misol yw £0

os yw eich incwm gwario blynyddol yn £4,800, eich incwm gwario misol yw £400 eich cyfraniad misol yw £360 cyfanswm eich cyfraniad incwm yw £1,800 (5x £360) neu £2,160 os talwch yn hwyr

Pryd y bydd yn rhaid i mi dalu?

O fewn **28 diwrnod** o draddodi eich achos i Lys y Goron. Anfonir Rhybudd neu Orchymyn Cyfrannu atoch yn rhoi manylion y swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i brofi eich incwm

Dylech ddod â'r dystiolaeth gyda chi wrth lenwi'r ffurflen gais am gymorth cyfreithiol. Os ydych chi:

- yn derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm neu geisio gwaith **y dystiolaeth angenrheidiol**: eich rhif yswiriant gwladol neu lythyr yn cadarnhau pa fudd-daliadau rydych yn eu cael
- yn gyflogedig **y dystiolaeth angenrheidiol**: slip cyflog diweddaraf
- yn hunangyflogedig **y dystiolaeth angenrheidiol**: y ffurflen dreth hunanasesiad lawn ddiweddaraf neu'r gyfres ddiweddaraf o'r cyfrifon. Os bydd angen unrhyw wybodaeth arall arnom byddwn mewn cysylltiad â chi
- yn cael eich talu mewn arian parod **y dystiolaeth angenrheidiol**: llythyr gan eich cyflogwr yn cadarnhau eich enillion

Os na ddarperir y dystiolaeth erbyn i'ch achos gael ei gyflwyno i Lys y Goron, mae gennych 14 diwrnod i'w gyflwyno

Os na fyddwch yn darparu tystiolaeth, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu **£900** neu **100%** o'ch incwm gwario misol, pa bynnag un yw'r uchaf

Beth os na allaf fforddio talu?

I gael gwybod yn union faint y bydd angen i chi ei dalu, bydd angen i chi wneud cais am gymorth cyfreithiol a darparu prawf o'ch incwm

Yna byddwch yn cael Gorchymyn neu Hysbysiad Cyfrannu yn cadarnhau a oes yn rhaid i chi dalu, a faint, ynghyd â'ch Gorchymyn Cynrychiolaeth

Os ydych chi'n meddwl bod y cyfrifiad yn anghywir gallwch ofyn am adolygiad

Os ydych chi'n meddwl na allwch chi fforddio talu, gallwch ofyn am **adolygiad caledi**

Gall eich twrnai neu'r llys ynadon lle gwnaethoch eich cais roi mwy o gyngor i chi

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu?

Os na fyddwch yn talu neu os bydd eich taliadau'n hwyr, mae'n bosibl y bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cymryd camau yn eich erbyn. Efallai y byddant:

- yn codi llog arnoch
- yn cymryd rhan o'ch enillion

Dim ond enghreifftiau o beth allai ddigwydd yw'r rhain. Gall eich twrnai roi mwy o wybodaeth i chi

Talu o'ch cyfalaf yn Llys y Goron

A fydd raid i mi dalu o'm cyfalaf?

Dim ond os yw bob un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- os cewch eich dyfarnu'n euog neu os plediwch yn euog
- os oes unrhyw daliadau rydych eisoes wedi'u gwneud heb dalu am gyfanswm costau eich amddiffyniad
- os oes gennych fwy na £30,000 o asedau cyfalaf (ee cynilion, ecwiti mewn eiddo, cyfranddaliadau neu Fondiau Premiwm)

Faint fydd yn rhaid i mi ei dalu?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich gallu i dalu a chostau cyffredinol eich achos

Efallai y bydd gofyn i chi dalu **rhywfaint** o'ch costau amddiffyn terfynol

Ond os na fyddwch yn darparu tystiolaeth o'ch cyfalaf pan ofynnir i chi wneud hynny, efallai y gofynnir i chi dalu o'ch cyfalaf hyd yn oed os oes gennych lai na £30,000 mewn asedau

Pryd y bydd yn rhaid i mi dalu?

Yn syth ar ôl i'r achos ddod i ben. Bydd Rhybudd Cyfrannu terfynol yn cael ei anfon atoch yn nodi'r swm fydd raid i chi ei dalu

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu?

Efallai y bydd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn codi llog arnoch chi a gallant gymryd amrywiaeth o gamau gorfodi yn eich erbyn

Beth sy'n digwydd nesaf?

1. Siaradwch â thwrnai
2. Llenwch ffurflen gais cymorth cyfreithiol
3. Casglwch eich holl dystiolaeth ynghyd er mwyn profi eich incwm a'ch cyfalaf (ee cynilion, cyfranddaliadau, Bondiau Premiwm)
4. Byddwch yn cael Gorchymyn neu Hysbysiad Cyfrannu yn rhoi gwybod i chi a oes rhaid i chi dalu yn Llys y Goron a faint fydd y swm hwnnw
5. Os bydd yn rhaid i chi dalu, dylech wneud eich taliadau ar amser a dim ond am bum mis y bydd yn rhaid i chi dalu Bydd raid i chi dalu am chwe mis os talwch yn hwyr
6. Os cewch eich dyfarnu'n ddieuog, cewch eich arian yn ôl gyda llog. Os oeddech chi'n hwyr yn talu neu os na wnaethoch dalu o gwbl ac y cymerwyd camau yn eich erbyn, caiff y costau hyn eu tynnu o'r ad-daliad
7. Os cewch eich dedfrydu'n euog neu os plediwch yn euog, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu o'ch asedau cyfalaf (ee cynilion, ecwiti mewn eiddo, cyfranddaliadau neu Fondiau Premiwm)
8. Os byddwch yn penderfynu eich bod am gynrychioli chi eich hun, rhowch wybod i'r llys ar unwaith

Gwybodaeth ddefnyddiol

Manylion eich twrnai:

Cofiwch...

- Trefnwch gynrychiolydd cymorth cyfreithiol cyn gynted â phosibl. Mae gan gyfreithiwr yr wybodaeth a'r arbenigedd i lunio'ch amddiffyniad, bydd yn gymorth i chi drwy gydol yr achos ac yn galw tystion ac arbenigwyr ar eich rhan
- Casglwch dystiolaeth er mwyn profi eich incwm ac unrhyw asedau cyfalaf sydd gennych (ee cynilion, cyfranddaliadau, Bondiau Premiwm)
- Os byddwch yn penderfynu eich bod am gynrychioli chi eich hun, rhowch wybod i'r llys ar unwaith
- Os cewch drafferthion talu, ffoniwch Rossendales 0845 6444 100

cyngor cyfreithiol cymunedol

0845 345 4 345

www.communitylegaladvice.org.uk/cy

Recycled

Supporting responsible use of forest resources

www.fsc.org Cert no. SGS-COC-2842

© 1996 Forest Stewardship Council

CDS/YDC/BIL V2 4/2010